**CYNORTHWY-YDD CEFNOGI'R CWMNI**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Cynorthwy-ydd Cwmni
Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i: Rheolwr Cefnogi'r Cwmni

**Pwrpas y Swydd**
Helpu i gyflawni'r prosesau gweinyddu mewnol sy'n cadw Theatr Clwyd i redeg. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar ddelio ag ymholiadau gan y cyhoedd yn ogystal â darparu cymorth gweinyddol cyffredinol i'r cwmni ehangach

**Cyfrifoldebau allweddol**

**Cyffredinol**
- Monitro mewnflwch e-bost sy'n cael ei rannu, ateb ymholiadau, neu anfon ymholiadau ymlaen yn brydlon
- Bod yn gwbl gyfarwydd â swyddogaeth a defnydd y system docynnau gyfredol, Microsoft Office a gweithrediad y system ffôn er mwyn cwblhau gwerthiant tocynnau ac ymholiadau
- Cael gwybodaeth am yr holl sioeau a'r digwyddiadau sy'n digwydd yn Theatr Clwyd a gallu darparu gwybodaeth berthnasol a diweddar i gwsmeriaid ar gais.
- Sicrhau bod pob cwsmer yn cael ei annog i gyfrannu at weithgareddau codi arian a datblygu'r cwmni
- Monitro swyddogaeth sgwrsio byw y wefan gan ateb ymholiadau, neu anfon ymholiadau ymlaen yn brydlon
- Bod yn bwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer ymholiadau am Ddigwyddiadau a Chynadleddau gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i throsglwyddo i'r Rheolwr Digwyddiadau
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer gweithdai a gwersi Cerddoriaeth ac Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd; darparu'r wybodaeth berthnasol a chofnodi'r ymholiadau
- Cefnogi pob tîm ar draws Theatr Clwyd yn ôl yr angen ac yn ôl cyfarwyddyd Rheolwr Cefnogi'r Cwmni neu Oruchwylydd Cefnogi'r Cwmni. Gall hyn fod ar gyfer prosiectau tymor byr, ffrydiau gwaith dros dro neu i ddarparu cefnogaeth ar amseroedd brig
- Sicrhau bod yr holl weinyddiaeth yn cael ei chwblhau i ansawdd uchel ac yn cadw at ddatganiad cenhadaeth Theatr Clwyd
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl gofynion rhesymol Rheolwr Cefnogi'r Cwmni.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad o gefnogi tîm neu weithio fel cynorthwy-ydd
- Sgiliau trefnu da
- Sgiliau TG rhagorol
- Da am reoli amser a'r gallu i flaenoriaethu baich gwaith
- Cyfeillgar a hawdd siarad â chi, gyda pharodrwydd i ddod i adnabod a gweithio gyda'r cwmni cyfan
- Dangos angerdd dros weithio mewn amgylchedd celfyddydol
- Rhagoriaeth glir mewn sgiliau cysylltiadau cwsmeriaid gyda dealltwriaeth amlwg o arfer gorau
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt
- Gweithiwr tîm brwdfrydig gyda sgiliau rhyngbersonol rhagorol
- Y gallu i ddefnyddio blaengaredd a blaenoriaethu tasgau
- Y gallu i weithio'n dda o dan bwysau
- Agwedd hyblyg at oriau gwaith i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, gan gynnwys gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc

**Dymunol**

- Gwybodaeth am y celfyddydau a diddordeb ynddynt, neu ddyhead i ddysgu mwy amdanynt
- Trwydded yrru lawn
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a’r Saesneg
- Gwybodaeth weithredol am systemau tocynnau cyfrifiadurol
- Ymwybyddiaeth fasnachol
- Gwybodaeth am fyd y theatr, dawns a ffurfiau celf eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol
- Dealltwriaeth o ddatblygu cynulleidfaoedd a marchnata
- Ffocws cadarn ar werthiant a datblygu cynulleidfaoedd